# Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

**2011 mccc 1**

## RHAN 2

COMISIYNYDD Y GYMRAEG

*Datgelu gwybodaeth*

### 22 Y pŵer i ddatgelu gwybodaeth

(1) Rhaid peidio â datgelu gwybodaeth y mae'r Comisiynydd wedi ei chael wrth arfer unrhyw un neu ragor o swyddogaethau'r Comisiynydd onid awdurdodir y datgeliad gan is-adran (2).

(2) Caiff y Comisiynydd ddatgelu'r wybodaeth—

(a) at ddibenion arfer unrhyw un neu ragor o swyddogaethau'r Comisiynydd;

(b) at ddibenion achos am dramgwydd o dyngu anudon yr honnir i'r tramgwydd gael ei gyflawni yn ystod ymchwiliad i orfodi safonau;

(c) at ddibenion ymholiad gyda golwg ar gychwyn achos fel a grybwyllir ym mharagraff (b);

(d) at ddibenion dyroddi tystysgrif o dan adran 107 (rhwystro a dirmygu);

(e) os yw'r wybodaeth i'r perwyl bod person yn debygol o fod yn fygythiad i iechyd neu ddiogelwch un neu ragor o bersonau a bod y datgeliad yn ddatgeliad i berson sydd ym marn y Comisiynydd yn berson y dylid datgelu'r wybodaeth iddo er budd y cyhoedd;

(f) os gwybodaeth o'r math a grybwyllir yn is-adran (3) yw'r wybodaeth, ac os gwneir y datgeliad i'r Comisiynydd Gwybodaeth;

(g) os gwneir y datgeliad i berson a ganiatawyd, a bod y Comisiynydd yn fodlon bod amod budd y cyhoedd wedi ei fodloni;

(h) os cafwyd yr wybodaeth gan y Comisiynydd dros 70 o flynyddoedd cyn dyddiad y datgelu, ac os datgeliad ydyw i berson sydd ym marn y Comisiynydd yn berson y dylid datgelu'r wybodaeth iddo er budd y cyhoedd.

(3) Gwybodaeth yw'r wybodaeth y cyfeirir ati yn is-adran (2)(f) yr ymddengys i'r Comisiynydd ei bod yn ymwneud—

(a) â mater y gallai'r Comisiynydd Gwybodaeth arfer pŵer mewn perthynas ag ef ac a roddir mewn deddfiad a grybwyllir yn is-adran (4); neu

(b) â chyflawni tramgwydd a grybwyllir yn is-adran (5).

(4) Y deddfiadau y cyfeirir atynt yn is-adran (3)(a) yw—

(a) Rhan 5 o Ddeddf Diogelu Data 1998 (gorfodi);

(b) adran 48 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (argymhellion arfer); ac

(c) Rhan 4 o'r Ddeddf honno (gorfodi).

(5) Y tramgwyddau y cyfeirir atynt yn is-adran (3)(b) yw'r rhai—

(a) o dan unrhyw ddarpariaeth yn Neddf Diogelu Data 1998 ac eithrio paragraff 12 o Atodlen 9 i'r Ddeddf honno (rhwystro gweithredu gwarant); neu

(b) o dan adran 77 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (y tramgwydd o altro etc cofnodion gyda'r bwriad o atal datgelu).

(6) At ddibenion is-adran (2)(g), mae amod budd y cyhoedd wedi ei fodloni os yw'r datgeliad—

(a) yn briodol at ddiben arfer unrhyw un neu ragor o swyddogaethau'r person a ganiatawyd gan y person hwnnw, a

(b) er budd y cyhoedd.

(7) Wrth ddyfarnu at ddibenion yr adran hon a yw datgelu gwybodaeth er budd y cyhoedd, rhaid i'r Comisiynydd ystyried buddiannau—

(a) unrhyw berson y mae'r wybodaeth yn ymwneud ag ef; a

(b) unrhyw bersonau eraill sy'n briodol yn nhyb y Comisiynydd.

(8) Nid yw'r adran hon yn effeithio ar gymhwyso Deddf Diogelu Data 1998 i'r Comisiynydd.

(9) Yn yr adran hon—

ystyr "person a ganiatawyd" ("*permitted person*") yw—

(a) Gweinidogion Cymru;

(b) Prif Weinidog Cymru;

(c) Cwnsler Cyffredinol Llywodraeth Cynulliad Cymru;

(d) Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru;

(e) Comisiynydd Plant Cymru;

(f) y Comisiynydd Plant;

(g) y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol;

(h) Comisiynydd Plant a Phobl Ifanc Gogledd Iwerddon;

(i) Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru;

(j) ombwdsmon tai a benodwyd yn unol â chynllun o dan adran 51 o Ddeddf Tai 1996;

(k) cyngor ar gyfer sir neu fwrdeistref sirol yng Nghymru;

(l) cyngor ar gyfer sir neu ddosbarth yn Lloegr;

(m) cyngor ar gyfer un o fwrdeistrefi Llundain;

(n) prif gwnstabl o'r heddlu ar gyfer ardal heddlu;

(o) prif gwnstabl Heddlu Trafnidiaeth Prydain;

**Statws** *This is the original version (as it was originally enacted).*

ystyr “ymchwiliad i orfodi safonau” (“*standards enforcement investigation*”) yw ymchwiliad a wneir gan y Comisiynydd o dan adran 71.

(10) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy orchymyn ddiwygio'r diffiniad o “person a ganiatawyd” yn is-adran (9)—

(a) drwy ychwanegu person;

(b) drwy hepgor person;

(c) drwy newid disgrifiad o berson.

(11) Cyn gwneud gorchymyn o dan is-adran (10), rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r person o dan sylw ac ag unrhyw bersonau eraill y mae'n briodol ymgynghori â hwy yn nhyb Gweinidogion Cymru.